CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 451 (Cy.42)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adrannau 43 a 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn rhagnodi'r rheolau y mae'n rhaid i'r prif awdurdodau praeseptio lynu wrthynt wrth gyfrifo'u hanghenion cyllideb a swm sylfaenol eu treth gyngor ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Wrth wneud y cyfrifiadau hyn, rhaid i awdurdodau gymryd i ystyriaeth symiau penodol y maent yn amcangyfrif y byddant yn daladwy iddynt ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu adrannau 43 a 44 o Ddeddf 1992 fel bod rhaid i awdurdodau heddlu yng Nghymru (sy'n brif awdurdodau praeseptio at ddibenion Deddf 1992) gymryd i ystyriaeth unrhyw symiau ar ffurf taliadau refeniw heb eu clustnodi ychwanegol y mae'n bosibl y byddant yn eu cael oddi wrth y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004/5 (yn ogystal â'r symiau eraill y cyfeirir atynt yn yr adrannau hyn) wrth wneud eu cyfrifiadau ynglyn â'u hanghenion cyllidebol a'u cyfrifiadau treth gyngor am y flwyddyn honno.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 451 (W.42)

# COUNCIL TAX, WALES

## The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Sections 43 and 44 of the Local Government Finance Act 1992 ("the 1992 Act") prescribe the rules according to which major precepting authorities must calculate their budget requirements and the basic amount of their council tax for each financial year. In making these calculations, authorities must take into account certain sums which they estimate will be payable to them in respect of the year.

These Regulations modify sections 43 and 44 of the 1992 Act such that police authorities in Wales (which are major precepting authorities for the purposes of the 1992 Act) must take into account any sums in the form of additional unhypothecated revenue payments which they may receive from the Home Office for the financial year 2004/5 (as well as the other sums referred to in these sections) when making their budget requirement calculations and council tax calculations for that year.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 451 (Cy.42)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *24 Chwefror 2004* |
| *Yn dod i rym* | *25 Chwefror 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 43(7)(a), 44(4) a 113, o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**a**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(**b**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 25 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran â rhif yn gyfeiriad at adran o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cyfrifo anghenion cyllideb (prif awdurdodau praeseptio)**

**2.** Mae'r rhannau o'r cyfrifiad sydd i'w wneud o dan adran 43(3) yn cael eu haddasu ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2004 i'r graddau y bydd paragraff (a)(i) yn cael effaith fel petai'n cynnwys, yn ychwanegol at y materion sydd eisoes wedi'u pennu ynddo, unrhyw daliadau refeniw heb eu clustnodi eraill a wneir i awdurdod heddlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn honno.

(a) 1992 p.14.

(b) *Gweler* O.S. 1999/672, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Cymru) 1999.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 451 (W.42)

# COUNCIL TAX, WALES

## The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *24th February 2004* |
| *Coming into force* | *25th February 2004* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 43(7)(a), 44(4) and 113 of the Local Government Finance Act 1992(**a**) and which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales(**b**).

**Name, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) These Regulations are called The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2004 and they shall come into force on the 25th February 2004.

(2) These Regulations apply only to Wales.

(3) In these Regulations a reference to a numbered section is a reference to a section of the Local Government Finance Act 1992.

**Calculation of budget requirement (major precepting authorities)**

**2**. The constituents of the calculation to be made under section 43(3) are altered in respect of the financial year commencing 1st of April 2004 to the extent that paragraph (a)(i) shall have effect as if it included, in addition to the matters already specified therein, any other unhypothecated revenue payments made to a police authority by the Secretary of State for the Home Office for that year.

(a) 1992 c.14.

(b) *See* S.I. 1999/672 The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) (Wales) Order 1999.

**Cyfrifo swm sylfaenol y dreth**

**3**. O ganlyniad i'r ddarpariaeth a wnaed gan reoliad 2 uchod, mae'r rhannau o'r cyfrifiad sydd i'w wneud o dan adran 44(1) yn cael eu haddasu ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2004 i'r graddau y bydd y diffiniad o "P" yn cael effaith fel petai'n cynnwys, yn ychwanegol at y materion sydd eisoes wedi'u pennu ynddo, unrhyw daliadau refeniw heb eu clustnodi eraill a wneir i awdurdod heddlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

24 Chwefror 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**Calculation of basic amount of tax**

**3**. In consequence of the provision made by regulation 2 above, the constituents of the calculation to be made under section 44(1) are altered in respect of the financial year commencing 1st of April 2004 to the extent that the definition of "P" shall have effect as if it included, in addition to the matters already specified therein, any other unhypothecated revenue payments made to a police authority by the Secretary of State for the Home Office for that year.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

24th February 2004

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 451 (Cy.42)

## Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Gofynnol) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 451 (W.42)

## COUNCIL TAX, WALES

The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090876-7

£3.00

W40/03/04 ON

9 780110 908762